

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

Ymchwiliad i'r Diwydiant Llaeth

Tachwedd 2009



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.cynulliadcymru.org

I gael rhagor o gopiau caled o'r ddogfen hon cysylltwch â:
Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8185

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: ruraldev.comm@wales.gsi.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

Ymchwiliad i'r Diwydiant Llaeth

Tachwedd 2009



Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

Ymchwiliad i'r Diwydiant Llaeth

Cefndir

1. Amlygodd cau safle gwaith 'Dairy Farmers of Britain' ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Mehefin 2009 y pwysau masnachol parhaus sydd ar y diwydiant llaeth yng Nghymru. Collwyd 279 o swyddi a chollwyd lle i brosesu 200 miliwn litr o laeth yn sgil y cau. Mae 900 o ddiswyddiadau wedi'u cyhoeddi yn y sector prosesu llaeth er 2005. Hefyd mae'r pris a gaiff cynhyrchwyr am y llaeth wedi gostwng 10.9 y cant yn y cyfnod er mis Gorffennaf 2008 ac mae nifer y cynhyrchwyr yng Nghymru wedi gostwng 33 y cant dros y pum mlynedd diwethaf.

2. Cytunodd Aelodau'r Is-bwyllgor Datblygu Gwledig, yn ei gyfarfod ar 8 Gorffennaf i gynnal ymchwiliad byr i'r diwydiant llaeth. Yn ganolog i'r ymchwiliad roedd edrych ar y rhesymau am y dirywiad diweddar yn y diwydiant, y gobeithion iddo ar gyfer y dyfodol a meysydd lle y byddai ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru yn fwyaf effeithiol.

Sefyllfa'r diwydiant llaeth ar hyn o bryd

Ewrop

3. Mae'r Diwydiant Llaeth yn Ewrop yn cael trafferthion sylweddol ar hyn o bryd, wedi i brisiau llaeth ostwng mewn rhai aelod-wladwriaethau o dros 40 cent y litr ar ddiwedd 2008 i lai na 20 cent y litr erbyn Mehefin 2009.¹

4. Fel rhan o'r diwygiadau i'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn 2003, cytunwyd y dylid cynnal adolygiad 'archwiliad iechyd' o'r diwygiadau hyn yn 2008. Cwblhawyd yr adolygiad a chytunwyd arno ar ddiwedd 2008. Roedd yn cynnwys cynnydd blynyddol o 1 y cant yn y cwota llaeth rhwng 2009 a 2013, a dileu pob cwota llaeth yn 2015. Rhoddodd yr adolygiad ddewis i aelod-wladwriaethau hefyd i ostwng taliadau uniongyrchol i ariannu camau a dargedwyd yn y sector llaeth.

5. Mae'r gostyngiad diweddar mewn prisiau llaeth a'r pwysau a ddeilliodd ar y diwydiant drwy Ewrop fodd bynnag, wedi arwain at alwadau ar y Comisiwn Ewropeaidd i ail-ystyried a ddylai cynigion yr 'Archwiliad iechyd' gael eu gweithredu fel y cytunwyd.

6. Mewn ymateb, dywedodd Mariann Fischer Boel, y Comisiynydd Amaeth bod y Comisiwn eisoes wedi gweithredu i fynd i'r afael â'r sefyllfa, a arweiniodd at dynnu'n ôl yr hyn sy'n cyfateb i 1.6 y cant o gynhyrchiant llaeth blynyddol o farchnad yr Undeb Ewropeaidd drwy ragor o brynu cynnyrch i gynnal prisiau, ac ers mis Chwefror, cymerwyd camau o ran cynnig cymhorthdal am allforio.² Amcangyfrifwyd bod y camau hyn eisoes wedi

¹ Financial Times: [EU moves to ease dairy crisis](#) [mynediad iddo 15 Gorffennaf 2009]

² Datganiad i'r Wasg y Comisiwn Ewropeaidd: [Dairy decline can be solved by demand stimulation and restructuring, not new interventions](#) [mynediad iddo 15 Gorffennaf 2009]

costio oddeutu €350m i'r Comisiwn, a'r disgwyl yw y bydd y ffigwr yn codi i €600m erbyn diwedd 2009.³

7. Bu'r ymyraethau hyn yn rhai dadleuol. Mae'r Unol Daleithiau, Awstralia a Seland Newydd wedi protestio wrth y Comisiwn bod gweithredu o'r fath yn groes i ysbryd ymrwymiad a wnaed gan y Grŵp o 20 gwlad ddiwydiannol a datblygedig (gwledydd yr G20) er mwyn osgoi camau diffynnaeth i oresgyn yr argyfwng ariannol.⁴

8. Ym mis Gorffennaf⁵ cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd adroddiad yn dadansoddi'r sector yn fanwl ac yn cynnig camau tymor byr a thymor hir i fynd i'r afael â rhai o'r problemau a wynebir gan y sector. Nododd Mariann Fischer Boel, y Comisiynydd Amaeth mewn cyflwyniad i'r Senedd Ewropeaidd ar 17 Medi nifer o gynigion yn cynnwys camau tymor byr i ymdrin â'r argyfwng presennol yn y farchnad, er enghraifft:

- Newid rheolau cymorth gwladwriaethol i alluogi aelod-wladwriaethau i gynnig cymorth dros dro o hyd at €15,000 i ffermwyr yn unol â'r Fframwaith Argyfwng Dros Dro
- Newidiadau i gynlluniau prynu cwtâu aelod-wladwriaethau.⁶

9. Yn y tymor canolig a'r tymor hir mae'r Comisiwn wedi cynnig sefydlu gweithgor o arbenigwyr, o aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn, i edrych ar nifer o faterion, yn cynnwys:

- Y posibilrwydd o sefydlu fframwaith cyfreithiol er mwyn hwyluso perthnasoedd cytundebol rhwng ffermwyr a'r diwydiant Ilaeth
- Casgliadau'r adroddiad yr addawodd y Comisiwn ei ddarparu erbyn diwedd y flwyddyn ar brosesau cadwyn gyflenwi'r sector Ilaeth⁷.

10. Er bod croeso cyffredinol i gynigion y Comisiwn, mae un ar hugain o aelod-wladwriaethau ac Aelodau o Senedd Ewrop wedi parhau i bwysu ar y Comisiwn am ragor o gymorth ariannol uniongyrchol ar gyfer y sector. Cyhoeddodd y Comisiwn felly ar 19 Hydref gynigion ar gyfer Cronfa Laeth i ddarparu arian tymor byr i ffermwyr Ilaeth drwy Ewrop. Cymeradwywyd y cynnig gan y Cyngor Ewropeaidd ar 18 Tachwedd 2009 a rhennir y gronfa o £300 miliwn rhwng yr aelod-wladwriaethau yn ôl eu cyfran hwy o'r Ilaeth a gynhrychir yn yr Undeb Ewropeaidd.

11. Er ei fod yn cynnig mwy o gymorth tymor byr i'r sector, cadarnhaodd y Comisiwn ei fwriad i fwrw ymlaen â'i gynigion fel rhan o Archwiliad Iechyd 2013 i ddileu cwotas Ilaeth erbyn 2015.

³ Financial Times: [EU moves to ease dairy crisis](#) [mynediad iddo 15 Gorffennaf 2009]

⁴ Guardian: [EU Commission to study stabilising dairy market](#) [mynediad iddo 15 Gorffennaf 2009]

⁵ Y Comisiwn Ewropeaidd, [Dairy Market Situation 2009](#) Gohebiaeth gan y Comisiwn i'r Cyngor, Mehefin 2009

⁶ Datganiad i'r Wasg gan Europa [Milk: Commission proposes further measures to help dairy in short, medium and long term](#) 17 Medi [mynediad iddo 23 Medi 2009]

⁷ *ibid.*

12. Ynghyd â chynnig cymorth uniongyrchol i'r diwydiant llaeth mae'r Comisiwn wedi'i sbarduno i fynd i'r afael â materion ehangach mewn cysylltiad ag anghydraddoldebau o ran grym yn y gadwyn cyflenwi bwyd a bod yn dryloyw wrth brisio bwyd drwy gyhoeddi Gohebiaeth i gynnwys cynigion i fynd i'r afael â'r materion hyn ar lefel Ewropeaidd⁸. Lanswyd Dull ar gyfer Monitro Prisiau Bwyd Ewropeaidd y gobeithia'r Comisiwn a fydd yn arwain at well tryloywder wrth brisio a dosbarthu costau ac elw yn fwy teg ar hyd y gadwyn fwyd.

Y Deyrnas Unedig

13. Yn ôl DairyCo (y bwrdd lefi cenedlaethol dros y diwydiant llaeth):⁹

For the last twenty years milk supply in the UK has fluctuated between 13 billion and 14 billion litres. However, since the 2003/4 milk year UK milk supply has been on a discernable declining trend. In the latest milk year ending March 2008 only 13.2 billion litres of milk were supplied in the UK, 310 million litres (2.3 percent) lower than the previous year and the lowest level since 1974. Moreover, despite being only part way through the current milk year, it is already apparent that milk supply will be lower again, with DairyCo estimates suggesting annual supply levels may be below 13 billion litres.

14. Y prif resymau am y gostyngiad ym maes cynhyrchu llaeth yw prisiau anwadal llaeth, diffyg hyder gan ffermwyr i fuddsoddi yn eu busnes, costau cynyddol y ffermwr a diffyg gwartheg i lenwi bylchau mewn buchesi godro, yn rhannol oherwydd lefelau isel ffrwythlondeb, TB a thywydd eithafol.¹⁰ Â gwaith cynhyrchu llaeth ym Mhrydain ar ei lefel isaf er dros 30 mlynedd, erbyn diwedd 2008 roedd miliwn litr o laeth y dydd yn cael eu mewnforio o'r Iseldiroedd, Gwlad Belg a Gogledd Iwerddon.¹¹

Cymru

15. Cafodd yr holl dueddiadau a nodwyd uchod effaith sylweddol ar y sector llaeth yng Nghymru. Yn ôl yr ystadegau a ddyfynnwyd yng Nghynllun Gweithredu Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer y Diwydiant Llaeth yng Nghymru, yn 2005 cyflogwyd oddeutu 5,000 o bobl mewn gwaith cynhyrchu llaeth yng Nghymru a 2,300 o bobl mewn gweithgareddau prosesu llaeth.¹²

16. Gwelodd y sector ddirywiad sylweddol o safbwynt cyflogaeth yn y blynyddoedd diwethaf, a chafodd hynny effaith ar gynhyrchwyr a phroseswyr. Mae nifer y cynhyrchwyr llaeth yng Nghymru wedi gostwng o oddeutu 33 y cant yn y pum mlynedd hyd at 2008. Cyfanswm y nifer o gynhyrchwyr yng Nghymru ym mis Awst 2008 oedd 2,149, o gymharu â 2,845 yn 2003.¹³ Mae niferoedd y buchod godro wedi gostwng o 419,000 yn 2004 i 390,000 yn 2008, sef gostyngiad o 6.9 y cant.¹⁴

⁸ Gohebiaeth y Comisiwn Ewropeaidd, [Communication on a better functioning food supply chain for Europe](#), COM (2009) 591 i Senedd Ewrop, y Cyngor, y Pwyllgor Cymdeithasol ac Economaidd Ewropeaidd a Phwyllgor y Rhanbarthau, 28 Hydref 2009

⁹ [Dairy Co. Factors affecting milk supply: January 2009](#) [mynediad iddo 15 Gorffennaf 2009]

¹⁰ [Gelli Aur Dairy Development Centre website](#) [mynediad iddo 15 Gorffennaf 2009]

¹¹ [gwefan newyddion y BBCe](#) [mynediad iddo 15 Gorffennaf 2009]

¹² [Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Diwydiant Llaeth yng Nghymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru 2007](#): 22 [ar 15 Gorffennaf 2009]

¹³ [Llywodraeth Cynulliad Cymru: Ystadegau Amaethyddol Cymru 2008](#): 52 [mynediad iddo 15 Gorffennaf 2009]

¹⁴ [Cattle Tracing System via Dairy Co website](#) [mynediad iddo 15 Gorffennaf 2009]

17. Cododd prisiau cynnal fferm laeth yn y Deyrnas Unedig o 2.2 y cant ym mis Gorffennaf 2009 i 22.99 ceiniog y litr ond dengys cymariaethau blynyddol fod pris llaeth wedi gostwng o 10.9 y cant ers Gorffennaf 2008 sy'n ostyngiad o 2.83 ceiniog y litr o 25.82ppl.

18. Dengys data DairyCo ar elw'r cyflenwyr llaeth fod elw gros manwerthu yr archfarchnadoedd a gwerthwyr eraill wedi cynyddu o 2.27 ceiniog y litr (ppl) yn 1994 i 19.3 ceiniog y litr (ppl) yn 2009.

19. Mae dros 900 o ddiswyddiadau wedi'u cyhoeddi mewn gwaith prosesu llaeth yng Nghymru er 2005, fel y gwelir yn y tabl isod:

Y diswyddiadau mewn gwaith prosesu llaeth

Cwmni	Dyddiad cyhoeddi	Nifer y diswyddiadau	Lleoliad
Saputo	Gorffennaf 2009	40	Castell Newydd Emllyn
Dairy Farmers of Great Britain	Mehefin 2009	279	Pen-y-bont ar Ogwr
First Milk	Ionawr/Chwefror 2009	140	Maelor, Wrecsam
Dyffryn Aeron	Mawrth 2007	44	Felinfach, Ceredigion
Dairygold	Ebrill 2006	115	Felinfach, Ceredigion
Longslow	Hydref 2005	100	Mochdre, Bae Colwyn
Dairy Farmers of Great Britain	Ebrill 2005	200	Llangadog

Fynhonnell: adroddiadau'r cyfryngau

20. Tan yn ddiweddar, y cwmnïau blaenllaw yng Nghymru oedd First Milk a Dairy Farmers of Britain, a oedd rhyngddynt yn prosesu dros 60 y cant o'r llaeth a gynhyrchir yng Nghymru. Fodd bynnag, golyga cau safle DFB ym Mhen-y-bont ar Ogwr ym mis Mehefin 2009 nad oes safle potelu mawr yng Nghymru bellach.

Polisi Llywodraeth Cymru

21. Roedd Cytundeb Cymru'n Un yn cynnwys ymrwymiad i gynhyrchu Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru. Cyhoeddwyd y Cynllun hwn ym mis Tachwedd 2007.¹⁵ Datblygwyd ef mewn partneriaeth â'r Grwp Strategaeth Llaeth (grwp sy'n cynrychioli'r diwydiant yng Nghymru) a'r Cyngor Datblygu Llaeth, a dynododd sut y gall pawb sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi, yn cynnwys proseswyr a chynhyrchwyr, weithio gyda'i gilydd a Llywodraeth Cymru i ymateb i heriau.

¹⁵ Llywodraeth Cynulliad Cymru [Strategic Action Plan for the Welsh Dairy Industry 2007](#) [mynediad iddo ar 15 Gorffennaf 2009]

Y dystiolaeth a gafwyd

22. Mewn cyfarfod yng Nghaerdydd ar 1 Hydref, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y sefydliadau a ganlyn:

- NFU Cymru;
- Undeb Amaethwyr Cymru;
- First Milk;
- Rachel's Dairy;
- Cwmni Llaeth y Llan;
- Y Grwp Strategaeth Llaeth.

23. Mae'r Pwyllgor am ddiolch i bawb a gyflwynodd dystiolaeth ysgrifenedig a thystiolaeth lafar i'r ymchwiliad.

Crynodeb o'r prif faterion dan sylw

Prisio

24. Clywodd y Pwyllgor mai un o'r pryderon mwyaf gan y diwydiant oedd dosbarthiad annheg y pris a dalwyd gan y cwsmer am gynnyrch llaeth a'r gostyngiad yn y gyfran o'r pris hwnnw a gaiff y ffermwyr. Yn ôl NFU Cymru ac eraill, mae elw'r archfarchnadoedd wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf, tra bod elw'r ffermwyr wedi cwmpo'n sylweddol dros yr un cyfnod.

25. Dywedwyd wrth y Pwyllgor gan undebau'r ffermwyr a chan Terrig Morgan o'r Grwp Strategaeth Llaeth bod angen ombwdsmon annibynnol i sicrhau chwarae teg rhwng y cyflenwr a'r mân-werthwr ac i gael gwared ar unrhyw gamymddygiad. Awgrymwyd y dylai'r Ombwdsmon fod â rôl o bennu prisiau.

26. Dywedodd Eifion Huws o Undeb Amaethwyr Cymru:

... we are not asking for households to pay any more for the milk or the cheese. All that we are asking for is a fairer share of that price. The money is there because, 10 years ago, the supermarkets were making 6.5p profit on a litre of milk, but today, that figure is 16.5p.

27. Nid oedd Neil Burchell o Rachel's Dairy yn credu bod defnyddwyr yn barod i dalu pris sylweddol am laeth lleol.

The retailers want to have local choice milk because it is a good marketing tool, but they are not prepared to pay a significantly higher price. So, the price at which the retailer demands that the processor supplies it is below your capability if you are a small dairy, and that was the problem with Dairy Farmers of Britain: it had contracts to supply local choice milk, which lost it money.

28. Datgelwyd pryder gan Undeb Amaethwyr Cymru am ddatblygu monopolïau rhanbarthol a'r angen am fwy o reoleiddio archfarchnadoedd gan y Swyddfa Masnachu Teg. Dywedodd Nick Fenwick wrth y Pwyllgor:

It is not just an issue about competition; it is also an issue about the development of monopolies and the Office of Fair Trade's failure to properly regulate supermarkets, and the very different treatment that it gave to milk processing companies compared with supermarkets.

.... we are seeing the development of regional monopolies, which I do not believe is healthy for competition. By definition, it cannot be so.

29. Clywodd y Pwyllgor hefyd am yr angen am gadwyni cyflenwi wedi'u neilltuo. Yn ôl NFU Cymru, roedd cadwyni cyflenwi wedi'u neilltuo yn cael eu cyflwyno gan fân-werthwyr am laeth drwy'r Deyrnas Unedig. Awgrymwyd, gan fod mwyafrif y llaeth yng Nghymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchu caws, y dylid sefydlu cadwyni cyflenwi caws wedi'u neilltuo er mwyn creu cyswllt rhwng y cynhyrchwr a'r mân-werthwr, er mwyn rhoi pris teg y farchnad i'r cynhyrchwr.

Cymorth gwladwriaethol

30. Roedd NFU Cymru yn pryderu bod y penderfyniadau gan y Comisiwn Ewropeaidd i ganiatáu i aelod-wladwriaethau gynyddu dros dro lefel y cymorth gwladwriaethol a gynigiwyd i ffermwyr o €7,500 i €15,000 yn wrth-gystadleuol. Roeddent o'r farn y byddai ffermwyr y DU o dan anfantais pe byddai rhai aelod-wladwriaethau'n cynyddu'r cymorth i'w ffermwyr ond nid oedd cymorth o'r fath ar gael i'w ffermwyr gan Lywodraeth y DU. Dywedodd Mansel Raymond:

We are concerned that, at the moment, some member states are prepared to go down the road of giving aid to support their dairy farmers in the short term. We believe that that would be anti-competitive, if we did not receive similar aid from our Government.

Gallu i gynhyrchu

31. Yn ôl NFU Cymru, mae gostyngiad anferth yn y lefel cynhyrchu llaeth ac yn y nifer o gynhyrchwyr yn y diwydiant llaeth yng Nghymru. Yn y pum mlynedd ddiwethaf, bu gostyngiad o 6.9 y cant yn y fuches llaeth yng Nghymru ac mae cynhyrchu llaeth ar ei lefel isaf ers 40 mlynedd. Dim ond 2,093 o gynhyrchwyr llaeth sydd yng Nghymru ar hyn o bryd, o'i gymharu â 3,977 ddeng mlynedd yn ôl. Cafodd cwmp cwmni Dairy Farmers of Britain yn gynharach yn y flwyddyn hefyd effaith arwyddocaol ar y diwydiant yng Nghymru, gan arwain at drafferthion ariannol i nifer o ffermwyr yng Nghymru.

32. Awgrymwyd mai'r rheswm pam nad oedd unrhyw waith prosesu llaeth sylweddol yng Nghymru yn syml oedd y gost. Yn ôl Neil Burchell:

The three large milk processors in the UK all process as close to the milk fields as possible, and as close to the demand as possible. Unfortunately, although the main milk fields in north and south Wales are strong milk fields, they are not close to the large centres of demand, and the infrastructure is not there for supply.

Creu galw am gynnyrch o Gymru

33. Soniodd Neil Burchell am fater creu galw am gynnyrch o Gymru gan ddefnyddwyr. Roedd yn pryderu, er ei bod yn bosibl creu diwydiant llaeth hynod o effeithiol yng Nghymru, oni bai bod defnyddwyr eisiau prynu cynnyrch o Gymru, fyddai dim marchnad ar gyfer bwyd a diod o Gymru, a fyddai'n creu math gwahanol o argyfwng.

My concern is that we could create a super efficient dairy industry in Wales, but unless the consumers want to buy Welsh products, Welsh food and drinks, we will not have a market and we will end up in a different form of crisis. So, one area that I want to discuss and address today is how we go about creating or developing the image of Welsh food, building that brand, and creating the demand for Welsh foodstuffs, not just in the UK, but across Europe.

34. Hefyd, teimlai Gareth Roberts o Llaeth y Llan a Neil Burchell, nad oedd y ffaith fod eu cynnyrch yn tarddu o Gymru wedi bod o fudd penodol i'w busnes hyd yma. Dywedodd Neil Burchell:

We are proud of our Welsh heritage and roots, but unfortunately the consumer research that we have done has said that, outside of Wales, Wales is not considered to be the home of great food. Therefore, you will not develop your sales by marketing your brand as a local Welsh brand. Within Wales, it is extremely positive, and Welsh people have the greatest propensity to buy local products of any part of the UK, but outside Wales, that kind of marketing is not successful.

35. Disgrifiodd Gareth Roberts yr anawsterau yr oedd wedi'u cael i geisio gwerthu ei gynnyrch yn Lloegr, oherwydd bod defnyddwyr yn dangos ffafriaeth fwyfwy at gynnyrch rhanbarthol.

36. Dywedodd Neil Burchell fod cyfle serch hynny i ddatblygu delwedd bwyd o Gymru, i lunio brand ac i greu galw am gynnyrch bwyd o Gymru, nid yn unig yn y Deyrnas Unedig, ond trwy Ewrop.

There is the opportunity to build the Welsh brand, and to promote Wales as the home of great food, but the focus of the activity needs to be on marketing it outside of Wales and not inside, because Welsh consumers are already convinced.

37. Ategwyd y pwynt hwn gan Paul Flanagan, o First Milk, a ddywedodd wrth y Pwyllgor bod y cwmni'n ceisio symud cyhyd ac oedd yn bosibl at gynnyrch wedi'i frandio, gan y byddai hynny'n rhoi ynysiad iddo rhag yr hyn a ddigwyddai yn y farchnad. Dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod yn bosibl ennill dwywaith neu ddwywaith a hanner yn fwy am gaws wedi'i frandio nag am gaws ysgafn safonol, a'u bod hwy wedi canfod fod tarddiad rhanbarthol yn fantais bendant iddynt hwy. Dywedodd Mr Flanagan:

A lot of energy has been put behind Welsh beef and lamb, and there is an opportunity to put more energy and support into the promotion of Welsh cheese; that would be helpful, because there is an opportunity there

38. Codwyd y posibilrwydd o ddefnyddio caffael gan Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru fel dull cost-effeithiol o greu galw am

gynnyrch o Gymru mewn llawer o'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad. Dywedodd NFU Cymru:

There needs to be an increase in the proportion of milk and milk products procured by WAG, Public institutions and Local Authorities in Wales. Whilst there are some good examples of local produce used in public procurement much more needs to be done. The Welsh Assembly Government Local Sourcing Action Plan published earlier this year states that 66% of milk and only 29% of added value dairy products used in the Welsh public sector are sourced from Wales. Clearly this shows that there is significant room for improvement.

39. Nododd y Pwyllgor hefyd bod Cynllun Gweithredu Cyrchu Lleol Llywodraeth Cymru, sef 'Bwyd a Diod i Gymru' yn amlygu gostyngiad yn y cyflenwadau llaeth o Gymru a brynir gan awdurdodau lleol a'r sectorau addysg uwch.¹⁶

Yr angen i fuddsoddi

40. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod buddsoddi yn flaenoriaeth amlwg er mwyn gwneud y diwydiant yn effeithiol a galluog i gystadlu â chynhyrchwyr Ewropeaidd. Yn draddodiadol, roedd y diwydiant llaeth wedi dibynnu ar y genhedlaeth nesaf i drosglwyddo'r awenau iddi, ond o gofio'r oriau anghymdeithasol a'r diffyg elw o fewn y diwydiant, nid oedd hyn yn digwydd erbyn hyn. Roedd angen buddsoddiad mawr i gynnal buches laeth ac roedd llawer o'r unedau llaeth wedi cychwyn yn ystod y 1970au ond roedd diffyg hyder yn y diwydiant, felly nid oedd pobl yn fodlon buddsoddi yn seilwaith y fferm laeth bellach.

41. Dywedodd Mansel Raymond:

...., before we see any upturn in milk production in Wales, producers will need to see a profitable future and have confidence to invest.

42. Soniodd NFU Cymru hefyd am fater buddsoddi er mwyn galluogi i ffermwyr gydymffurfio â deddfwriaeth amgylcheddol a'r angen am gysondeb. Roedd NFU Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol nad oedd gan Gymru safonau amgylcheddol gwahanol i aelod-wladwriaethau eraill.

43. Nododd Terrig Morgan, Cadeirydd y Grwp Strategaeth Llaeth, fod y diwydiant llaeth yn y gorffennol wedi cael trafferth cael mynediad at rai cynlluniau amaeth-amgylcheddol a'i fod yn gobeithio y byddai modd i'r diwydiant gael mynediad at gynllun arfaethedig amaeth-amgylcheddol newydd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Glastir.

The move away from specific payments is good for me, as a dairy farmer. I guess that with a little bit of good will on behalf of the Welsh Assembly Government, we will be able to access these schemes, and I look forward to Glastir and the new schemes.

¹⁶ Welsh Assembly Government, [Local Sourcing Action Plan 'Food and Drink for Wales'](#) [accessed 20 November 2009]

Mynediad at wybodaeth

44. Llongyfarchodd Undeb Amaethwyr Cymru y Ganolfan Datblygu Llaeth a DairyCo am hwyluso'r llif gwybodaeth i'r diwydiant. Dywedodd Nick Fenwick,

DairyCo provides the industry with excellent information, and demonstration farms are a key part of that and are invaluable to the industry.

45. Roedd ganddynt, fodd bynnag bryderon am y modd yr oedd rhanddeiliaid allweddol wedi cael gwybod am y cynnydd a wnaed i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Diwydiant Llaeth yng Nghymru:

I emphasise the need for an update on the targets that have or have not been hit as regards that strategic action plan. The only update given so far was published last November as a one-and-a-half page article in *Gwlad*, and it is anything but a professional update.

46. Cefnogwyd y pwynt hwn gan NFU Cymru. Dywedodd Mansel Raymond:

Many of our members are involved in the dairy strategy group, but nobody from the NFU is on that dairy strategy group, so nothing is reported back to the NFU.

47. Cydnabu Terrig Morgan, er bod y Grwp wedi cwblhau gwerthusiad manwl o'r cynnydd a wnaed i gyflwyno'r Cynllun Gweithredu Strategol, bod lle i wella o ran dosbarthu'r wybodaeth i'r diwydiant.

We are monitoring it on a regular basis with the staff of the Welsh Assembly Government. There are two members of staff in Aberystwyth who look after the dairy sector, and we report regularly to the dairy strategy committee. I am quite aware that we are not pushing that out enough to the producer. It is a problem with which we need to grapple, and I am quite aware of that. We are not getting the message through to the milk producer in Wales about what is happening and what we are doing. We need to improve on that greatly.

48. Disgrifiodd hefyd am yr anhawster yr oedd y Grwp Strategol Llaeth wedi'i gael i gael mynediad at ystadegau penodol am Gymru:

...in the beginning, we were unable to get information on the number of sold dairy cows in Wales. When I first took the job, we undertook the first Promar analysis of Welsh dairy farming, which we published in 2006 or 2007, but it was difficult to get hold of these statistics. It should not be difficult, because we have only to change the June census to include an extra box for the single farm payment. Such information is essential in helping us to make policy decisions.

Sgiliau a hyfforddiant

49. Amlygodd Neil Burchell yr angen i annog mwy o bobl ifanc i ddod i weithio yn y diwydiant bwyd. Awgrymodd:

At the moment, we have an absolute dearth of qualified young people coming into the food industry.

50. Cytunodd Paul Flanagan â safbwynt Neil Burchell am bwysigrwydd darparu hyfforddiant da a chyfleoedd i ddatblygu ar gyfer y rhai sy'n gweithio yn y diwydiant.

I agree with Mr Burchell that training and development are particularly important. We are working on that at First Milk; we have a First Milk academy that starts in business clubs, of which we have nine in Wales. We also run courses on good business management for producers, and we spend a lot of time with our young producers. That is important.

51. Disgrifiodd Terrig Morgan hefyd yr angen am newid sgiliau yn y diwydiant llaeth a'r sector prosesu.

Casgliadau ac Argymhellion

Casgliadau

52. Fel rhan o'i ymchwiliad i Gynhyrchu a Hybu Bwyd Cymreig, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth helaeth a oedd yn tanlinellu'r angen am benodi Ombwdsmon i ddiogelu ffermwyr a chyflenwyr rhag yr archfarchnadoedd sy'n elwa arnynt ac i sicrhau bod tryloywder yn bodoli o ran y gadwyn fwyd. Mae'r ymchwiliad hwn i'r diwydiant Ilaeth hefyd wedi amlygu dosbarthiad annheg o ran y pris gan y defnyddiwr am gynnyrch Ilaeth a'r lleihad yn y gyfran o'r pris hwnnw a delir i'r ffermwyr fel mater o bwys mawr. Mae'r Pwyllgor felly'n galw o'r newydd ar y Gweinidog dros Faterion Gwledig i barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sefydlu Ombwdsmon y DU cyn gynted ag y bo modd. Galwn hefyd am benodi 'hyrwyddwr Ilaeth o Gymru' i gynrychioli buddiannau'r diwydiant Ilaeth yng Nghymru wrth Ombwdsmon y DU.

53. Thema arall sy'n dod i'r amlwg unwaith eto yw'r angen am greu galw am gynnyrch o Gymru. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, soniodd Paul Flanagan o First Milk am yr egni sydd wedi'i ddefnyddio i hyrwyddo cig eidion a chig oen o Gymru, a galwodd fod yr un egni'n cael ei ddefnyddio i hyrwyddo caws o Gymru. Mae'r Pwyllgor wedi annog Llywodraeth Cymru yn y gorffennol i gefnogi creu sefydliadau i ddatblygu, hyrwyddo ac i farchnata cynnyrch arall o Gymru gan ddilyn esiampl Hybu Cig Cymru. Dywedodd y Gweinidog, wrth ymateb i'r Pwyllgor nad ystyriwyd ei bod yn ymarferol sefydlu cyrff tebyg i Hybu Cig Cymru ar gyfer sectorau eraill oherwydd diffyg adnoddau. Felly mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y diwydiant Ilaeth yng Nghymru, fod y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn datblygu model newydd ar gyfer hyrwyddo cynnyrch Ilaeth o Gymru, gan ddefnyddio arferion gorau mewn sectorau eraill.

54. Mae dystiolaeth a gasglwyd gan y Pwyllgor hefyd yn awgrymu bod bwlch yn y ddarpariaeth hyfforddiant ar gyfer pobl sydd am fynd i'r sector prosesu Ilaeth ac o ganlyniad mae prinder yn y nifer o bobl gymwysedig sy'n dechrau gweithio yn y diwydiant. Mae'r Pwyllgor felly'n gofyn yn daer i'r Gweinidog i weithio â'i chyfeillion yn y cabinet a darparwyr hyfforddiant i fynd i'r afael â'r mater.

55. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai'r newidiadau dros dro a gyhoeddwyd yn ddiweddar i reolau'r Cymorth Gwladwriaethol Ewropeaidd arwain at fod y diwydiant Ilaeth yng Nghymru o dan anfantais o gymharu â'i gystadleuwyr Ewropeaidd. Er ein bod yn cydnabod bod cyfyngiadau cyllidebol yn ei gwneud yn anodd i Lywodraeth Cymru gynyddu'r cymorth sydd ar gael i'r diwydiant, rydym yn annog y Gweinidog i gymryd camau i sicrhau nad yw'r diwydiant Ilaeth yng Nghymru yn dioddef o ganlyniad i'r newidiadau yn y rheolau.

Argymhellion

1. Mae'r Pwyllgor yn galw o'r newydd ar y Gweinidog i barhau i bwysu ar Lywodraeth y DU i sefydlu Ombwdsmon Prydeinig cyn gynted ag y bo modd.

2. Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Hyrwyddwr Diwydiant Llaeth annibynnol yng Nghymru er mwyn cynrychioli a hybu buddiannau cynhyrchwyr a phroseswyr llaeth yng Nghymru, a darparu llais i'r diwydiant llaeth yng Nghymru ar lefel y Deyrnas Unedig a bod yn ffynhonnell gwybodaeth i Ombwdsmon y DU.

3. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bosibl i gaffael cyhoeddus effeithio'n fawr ar y galw am gynnyrch llaeth o Gymru ar y gost leiaf. Rydym yn argymhell felly y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynnydd yn y gyfran o gynnyrch llaeth a gaiff ei brynu oddi wrth gynhyrchwyr a phroseswyr yng Nghymru, ac y dylai wrthdroi'r dirywiad a welwyd mewn caffael gan awdurdodau lleol dros y blynyddoedd diwethaf.

4. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd camau i annog cynhyrchwyr llaeth i newid o gynhyrchu llaeth ar gyfer nwyddau'r farchnad fawr i gynhyrchu nwyddau premiwn sy'n ychwanegu gwerth.

5. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn datblygu model newydd ar gyfer hyrwyddo cynnyrch llaeth o Gymru, gan ddefnyddio arferion gorau mewn sectorau eraill.

6. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y defnydd gorau posibl yn cael ei wneud o'r Gronfa Laeth Ewropeaidd arfaethedig er mwyn sicrhau buddsoddiad yn y seilwaith ar gyfer cynhyrchwyr llaeth i wella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y diwydiant llaeth yng Nghymru.

7. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod sicrhau bod gwaed newydd cyson yn dod i'r diwydiant llaeth yn hanfodol. Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn asesu'r hyfforddiant cyfredol a ddarperir a'i bod, ar y cyd â'i chydweithwyr yn y cabinet yn datblygu strategaeth a fydd yn sicrhau bod niferoedd digonol o bobl gymwysedig yn cael eu denu i'r sector prosesu llaeth yng Nghymru.

8. Mae'r Pwyllgor yn argymhell, wrth ddatblygu bwriadau ar gyfer cynllun newydd Glastir, bod y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn rhoi sylw penodol i sicrhau bod y cynllun yn fwy deniadol i ffermwyr llaeth a'i fod yn haws iddynt gael mynediad ato nag oedd yn wir am gynlluniau amaeth-amgylcheddol blaenorol, a bod Glastir yn cyfrannu tuag at ddiogelu dyfodol cynhyrchwyr llaeth yng Nghymru.

9. Dylai'r Gweinidog weithio â'i chyd-weithwyr yn y cabinet i sicrhau bod manteision gweithredu yng Nghymru, yn cynnwys cymorth gan y llywodraeth a mynediad at arian cydgyfeirio, yn cael eu hyrwyddo wrth gwmnïau o fewn y sector llaeth.

10. Dylid gwneud ymdrech o'r newydd gan Lywodraeth Cymru a'r Grwp Strategaeth Llaeth i ddosbarthu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r diwydiant ar roi ar waith y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y diwydiant llaeth yng Nghymru er mwyn sicrhau bod cynhyrchwyr a rhanddeiliaid eraill o bwys yn parhau'n ffyddlon i'r diwydiant.

11. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am effeithiau niweidiol posibl y lefelau cymorth uwch gan y wladwriaeth sydd ar gael mewn rhai aelod-

wladwriaethau yn yr Undeb Ewropeaidd i'r diwydiant Ilaeth, ac am yr effaith negyddol y gallai hyn ei chael ar y sector yng Nghymru. Anogwn y Gweinidog, ar y cyd â'i chyd-weithwyr yn y DU ac yn Ewrop i sicrhau bod llwyfan cyfartal i bawb o fewn y farchnad Ewropeaidd, ac i ganoli'r cymorth sydd ar gael ar hyn o bryd drwy Cyswllt Ffermio a DairyCo ar ddatblygu gallu'r diwydiant Ilaeth yng Nghymru i gystadlu yn y farchnad honno.